



# Health Through Warmth

Cartrefi cynhesach, iechyd gwell.



Community

# Sut ydym ni'n gweithio?



**Yn aml y bobl sydd fwyaf o angen help yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o ofyn amdano. Drwy gydweithio gyda gweithwyr cymunedol, gallwn roi help ymarferol gyda gwresogi ac insiwleiddio i'r bobl sydd mewn mwyaf o angen.**

Dyna pam fod gennym gysylltiadau agos gydag asiantaethau gwella cartrefi a gofal a thrwsio, awdurdodau lleol, elusennau, gweithwyr cymunedol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Gall cyllid fod ar gael o amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys Cronfa Argyfwng npower Health Through Warmth, cynlluniau grant a sefydliadau elusennol.

Mae'r cymorth ar ddisgresiwn ac mae'n seiliedig ar amgylchiadau unigol.

# Sarah

## Dwyrain Swydd Efrog/ East Riding of Yorkshire

**Roedd Sarah yn dioddef o iselder ac, ar ôl rhai amgylchiadau anodd iawn, cafodd chwalfa nerfau.**

Fe wnaeth y boeler yn ei thŷ pâr dorri, gan ei gadael heb wres a dŵr poeth - ac fe wnaeth hynny bethau'n waeth byth. Ni allai fforddio boeler newydd ac ni wyddai ble i droi am help.

Ar ôl ymweld â'r gwasanaeth pensiwn lleol i gael cyngor, cafodd Sarah ei hatgyfeirio i npower Health Through Warmth.

Fe wnaeth cydlynnydd y cynllun lleol drefnu dyfynbrisiau yn sydyn a chael cyllid i osod boeler newydd, ar gost o £1,321. Gwnaed cyfraniadau hefyd gan yr elusen alwedigaethol Cavell Nurses' Trust (£700), elusen Welton Relief in Need (sydd ond yn gweithredu'n lleol) (£150) a £371 drwy Gronfa Argyfwng unigryw npower Health Through Warmth.



**Dywedodd Sarah:**

**“Rwy’n gwerthfawrogi’r help a’r cydymdeimlad a gefais gan Health Through Warmth, mae fy mywyd wedi newid er gwell”.**

# Elaine

## Caerlŷr/Leicester

**Mae Elaine, 57, yn dioddef o asthma ac osteoporosis, a gall amodau byw oer waethygu hynny.**

Mae gan Elaine system wres canolog sy'n gweithio gyda glo. Roedd hynny'n torri i lawr yn aml ac roedd angen ychwanegu glo ati drwy'r amser, ac roedd hynny'n anodd iddi.

Cysylltodd Elaine â chanolfan adnoddau lleol i weld os oedd unrhyw help ar gael. Fe wnaethant ei chyfeirio at gydlynnydd npower Health Through Warmth a drefnodd ddyfynbrisiau a cheisio cyllid ar gyfer boeler newydd.

Roedd cost y gwaith yn £2805.60 a derbyniwyd cyfraniadau gan Junius S Morgan Benevolent Fund (£250) a Cavell Nurses' Trust (£250). Daeth y gweddill o £2,305.60 o Gronfa Argyfwng npower Health Through Warmth.



Roedd Elaine yn fodlon iawn gyda'r help a gafodd gan Health Through Warmth. Dywedodd ei bod yn llawer mwy cysurus yn awr ac yn edrych ymlaen at roi'r gwres ymlaen, gan wybod y gall ddibynnu ar y boeler a bod y system yn hawdd ei thrin. Pan ddaw ei wyrion i edrych amdani gallant yn awr chwarae mewn tŷ cynnes ac nid yw'n rhaid iddi boeni eu bod yn teimlo'n oer.

# Victoria

## Glannau Merswy/Merseyside

**Mae gan Victoria, 47, ffibromyalgia ac osteoarthritis cronig, ac mae mewn poen cyson gyda stiffwrwydd a gallu cyfyngedig i symud.**

Roedd ei boeler yn hen iawn ac yn torri lawr, gan olygu ei bod yn aml heb wres.

Cysylltodd Victoria â llinell gyngor ynni leol a chafodd ei hatgyfeirio at dîm Health Through Warmth. Trefnodd y cydlynnydd lleol i osod boeler a rheiddiadur newydd, ar gost o £1,880 a chael mynediad i grant o £8,000 gan Elusen Gweision Sifil. Gallodd Victoria gyfrannu £230. Talwyd y gweddill o £850 drwy Gronfa Argyfwng npower Health Through Warmth.



**Dywedodd Victoria:**

**“Roeddwn yn gwybod na allwn ffordio holl gost boeler newydd felly roedd yn gysur clywed y gallwn gael cymorth ariannol drwy Gronfa Argyfwng Health Through Warmth a gan elusen. Mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth.”**

# Pwy sy'n gymwys i gael help?



**Pobl gyda salwch hirdymor sy'n berchen ac yn byw yn eu cartref eu hunain yng Nghymru neu Loegr, ond sydd hefyd ag incwm isel a fawr neu ddim cynilion (asesir) ac na all dalu am y gwaith yn llawn eu hunain.**

Byddwn yn gwirio fod y person yn gymwys, felly bydd yn rhaid iddynt lenwi rhai ffurflenni am eu hincwm, gwariant a manylion eraill.

Nid yw'n rhaid i gleientiaid fod neu ddot yn gwsmer npower i dderbyn help.

\* Mae'n rhaid i chi gyflawni'r holl feini prawf i gymhwyso. I drafod meini prawf llawn cymhwyster cysylltwch â'r cynllun ar y rhif ffôn ar y dudalen 'Cysylltu gyda ni' os gwelwch yn dda.

# Pethau y gallwn helpu gyda nhw



Insiwleiddio waliau  
ceudod ac atigau



Trwsio neu osod  
boeler newydd



Systemau neu  
gyfarpar gwresogi



Cyngor ar arbed  
ynni



Mynediad i gyllid

# Cysylltu gyda ni

I gael mwy o wybodaeth



Ewch i

[www.healththroughwarmth.com](http://www.healththroughwarmth.com)



Neu ffonio

**0800 022 220**

(dewis yr opsiwn arbed ynni)

## **Npower Limited Health Through Warmth**

Oak House  
Bridgwater Road  
Warndon  
Worcester  
WR4 9FP



Ewch i

[www.npower.com](http://www.npower.com)

